



---

# **TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR**

---

**TGAU (NEWYDD)  
LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**HAF 2019**

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: <https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en>

### **Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

### **Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

## LLENYDDIAETH GYMRAEG UNED 1

### Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2019

#### Sylwadau cyffredinol

'Gweld y Gorwel' oedd y gerdd osod ar yr haen sylfaenol gyda 'Pedair Wal' gan Arwyn Jones yn ymddangos fel yr ail gerdd ar gyfer ei chymharu. 'Y Ferch wrth y bar yng Nghlwb Ifor' a 'Cariad' gan Gwyn Erfyl oedd y ddwy gerdd a ymddangosodd ar bapur yr haen uwch.

Roedd ymgeiswyr y ddwy haen wedi llwyddo ar y cyfan i weld elfennau y gellid eu cymharu yn y ddwy gerdd yr arholwyd hwy arnynt. Roedd y goreuon wedi llwyddo i ddangos dealltwriaeth o'r ddwy gerdd gan eu cymharu'n gyson ac ystyrion. Roedd tueddiad gan rai i ganolbwyntio mwy ar y gerdd gyfarwydd, gan nodi ychydig o sylwadau'n unig ar yr ail gerdd.

Mewn cwrs yn ddiweddar, cynigiwyd un syniad sut i fynd ati i chwilio am elfennau i'w cymharu os oes rhai ymgeswyr heb sylwi ar elfennau amlwg o'r cychwyn. Cynigiwyd yr acronym TAPAS, sef cymharu teimlad, amser, person, ardal(lleoliad) synhwyrau. Er bod hyn yn cynnig syniadau ychwanegol mae'n amlwg bod rhai ymgeiswyr wedi seilio'u traethawd cyfan ar hyn. Cofier bod mwy na hyn i'w cymharu mewn cerdd, ac efallai nad ydy rhai o'r rhain yn berthnasol bob tro. Rhywbeth ychwanegol ddylai hyn fod, fel rhyw fath o gymorth mewn cyfyngder.

Gwylid rhag camddenyddio ambell i air e.e. 'yn syml' (*cf. similar*) yn lle 'yn debyg', ac mae rhai yn camddefnyddio tebygolrwydd yn lle tebygrwydd.

Un nodwedd gan rai ymgeiswyr oedd trafod yr arddull ond heb fod yn llwyddo i enwi'r nodwedd. Cafwyd rhai enghrefftiau hefyd o'r nodwedd anghywir yn cael ei henwi.

Unwaith eto, roedd llawysgrifen aneglur yn broblem i rai ymgeiswyr. Cofier bod trefniadau rhwng CBAC a'r canolfannau i sicrhau nad yw hyn yn digwydd. Mae modd cyflwyno gwaith wedi'i argraffu os nad oes ysgrifen ddealladwy gan ymgeisydd, neu os oes rheswm arall am fethu ag ysgrifennu â llaw.

Gwelwyd rhai unigolion yn defnyddio termau Saesneg e.e. *metaphor* yn lle trosiad. Dylid atgoffa'r ymgeiswyr o'r holl dermau a'u bod yn defnyddio'r fersiwn Gymraeg bob tro.

#### Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

##### Haen Uwch

Roedd y goreuon wedi llwyddo i drafod 'Y Ferch wrth y Bar' yn llawn a threiddgar. Er bod hon yn gerdd ar gyfer y ddwy haen, mae digon ynddi i ymestyn y goreuon i drafod yn aeddfed e.e. 'gallai'r ddawns fod yn ddawns gorfforol a ddigwyddodd go iawn, neu'n ddawns drosiadol a ddigwyddodd ym meddwl y bardd yn unig.'

Gyda'r gerdd 'Cariad', roedd y goreuon wedi gweld mai cyfres o ddarluniau o fyd natur sydd yma, ond bod y bardd ar ddiwedd pob pennill yn dweud fod ei gariad yn drech na'r hyn y mae byd natur yn ei gynnig. Roedd lleiafrif yn cynnig un sylw byr am bob pennill, heb lwyddo i ddangos dadansoddiad manwl o'r gerdd a'r neges.

Roedd nifer fawr wedi llwyddo i sylwi bod y ddau fardd yn trafod llygaid y ferch, a'r goreuon yn mynd ati i ddadansoddi'r gwahanol ymdriniaeth yn dreiddgar. Roedd y goreuon wedi llwyddo i ddadansoddi'r pennill olaf yn arbennig gan nodi efallai fod yma awgrym o ddiffyg ar y berthynas. Wrth wneud hyn roedden nhw wedi gallu ymresymu eu dadansoddiad.

Cofier bod mwy nag un dehongliad yn bosib yn y rhan fwyaf o gerddi. Nid yw'r arholwyr yn cosbi dehongliad annisgwyl os yw'r ymgeisydd yn llwyddo i gyfiawnhau'r dehongliad hwnnw.

Roedd rhai yn ailadrodd cynnwys y gerdd yn unig, tra oedd y goreuon yn llwyddo i ddod ag elfen o ddadansoddi'n gyson i mewn i'r gwaith.

Gwylid rhag nodi'r arddull yn anghywir e.e. roedd nifer o ymgeiswyr wedi nodi mai ansoddair yw 'galar', 'hyder' a 'direidi'.

Roedd y mesur wedi creu trafferthion i rai wrth gymysgu englyn milwr ac englyn penfyr.

Roedd lleiafrif fel petaen nhw wedi trafod y thema 'cariad' yn unig, heb wir fynd ati i drafod unrhyw ran o'r gerdd. Atgoffwn yr ymgeiswyr i ddarllen dros yr ail gerdd fwy nag unwaith er mwyn ceisio dod i'w deall er mwyn gallu'i thrafod yn llawn.

### **Haen Sylfaenol**

Roedd y mwyafrif wedi deall cynnwys y ddwy gerdd ac wedi cymharu'n effeithiol er bod yr atebion yn amrywio o ran dyfnder, cynnwys a pherthnasedd. Roedd y goreuon wedi mynd drwy'r ddwy gerdd yn fanwl, gan fanylu ar y cynnwys.

Roedd hi'n amlwg bod 'Gweld y Gorwel' wedi apelio at yr ymgeiswyr. Gan mai dyma'r gerdd osod, fel y gellid disgwyl, dangosodd bron y cyfan o'r ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'i chynnwys a'i neges. Llwyddodd llawer i ddeall mai ymdrin ag effaith bwlio ar unigolyn mae 'Pedair Wal' er bod y cyfeiriad at filwyr wedi peri i rai feddwl mai cerdd am ryfel a therfysgaeth yw hi.

Mae rhai ymgeiswyr yn parhau i ysgrifennu brawddeg neu ddwy am y cynnwys yn unig. Rhaid atgoffa'r canolfannau bod hanner y marciau yn mynd ar drafod y cynnwys, ac os yw'r cynnwys hwn yn cael ei drafod yn llawn a manwl, yna bydd y marciau'n adlewyrchu hynny.

Ar y cyfan roedd trafod yr arddull yn ganmoladwy. Mae'n amlwg bod hyfforddiant parhaus y canolfannau yn dwyn ffrwyth a bod mwyafrif yr ymgeiswyr o leiaf yn gallu adnabod a thrafod nodweddion, hyd yn oed yn yr ail gerdd.

Apeliwn eto ar y canolfannau i barhau i ymarfer digon gyda cherddi eraill o ran cymharu'r ddwy gerdd.

Diolch yn fawr i'r canolfannau am eu gwaith eleni eto yn paratoi'r ymgeiswyr.

### **Crynodeb o brif bwyntiau**

- Darllen dros yr ail gerdd fwy nag unwaith
- Peidio â threulio amser yn trafod manylion y mesur/odl os na allant hefyd ddangos sut mae'n berthnasol i'r gerdd
- Trafod y cynnwys yn llawn
- Cofio trafod effeithiolrwydd yr arddull, a bod yn benodol wrth wneud hynny
- Cymharu'n ystyrlon

## LLENYDDIAETH GYMRAEG UNED 2

### Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2019

#### Sylwadau cyffredinol

Diolch yn fawr iawn i ganolfannau am baratoi ymgeiswyr ar gyfer sefyll yr uned hon. Teimlir wrth farcio mai ymgeiswyr Blwyddyn 10 yw rhyw y papurau a farciwyd gan arholwyr ac yn gyffredinol gwelwyd dyffyg aeddfedrwydd wrth ateb rhai cwestiynau. Ond mae un peth yn gwbl sicr, mae sefyll TGAU Llenyddiaeth Gymraeg yn rhywbeth sy'n werth ei wneud ac maent yn ymateb yn dda iawn i'r nofelau gosod

#### Haen Sylfaenol

Mae Llinyn Trôns yn parhau'n boblogaidd iawn – ond gwelwyd ymateb da ar bob un o'r nofelau. Mae niferoedd Diffodd y Sêr wedi cynyddu unwaith eto eleni. Mae'r ymatebion yn profi bod yr ymgeiswyr yn elwa ar astudio nofel yn ystod CA4 ac yn mwynhau'r nofelau a ddewiswyd ar eu cyfer. 2020 fydd y gyfres olaf y bydd modd i' ymgeiswyr ateb ar y nofel Dim ar yr haen sylfaenol. Bydd modd parhau i'w hastudio ar yr haen uwch.

#### Haen Uwch

Mae Yn Y Gwaed yn parhau yn boblogaidd iawn. Dwy ganolfan yn unig sydd bellach yn astudio Y Stafell Ddirgel. Haf 2020 fydd y gyfres olaf y bydd modd i ymgeiswyr ateb ar Y Stafell Ddirgel. Felly, os bydd ymgeiswyr Blwyddyn 10 yn sefyll yr arholiad yn yr uned hon y flwyddyn nesaf, ni fydd modd iddynt ailsefyll trwy ateb ar Y Stafell Ddirgel yn 2021.

#### Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

#### Haen Sylfaenol

##### Cwestiwn 1

Nid oedd hwn yn gwestiwn newydd eleni – gan ein bod wedi gofyn cwestiwn tebyg y llynedd. Roedd y mwyafrif yn arddangos gwybodaeth fanwl ond roedd rhai atebion yn rhy gyffredinol. Roedd gormod o ymgeiswyr yn aralleirio'r dyfyniad ar y papur arholiad. Dylid hyfforddi ymgeiswyr i fanylu ar yr hyn sy'n digwydd cyn ac ar ôl y digwyddiadau heb fynd yn rhy bell yn ôl/ymlaen.

##### Cwestiwn 2

Roedd y mwyafrif yn llwyddo i ennill marciau da ar y cwestiwn hwn gyda rhai ymgeiswyr yn rhestru mwy na'r hyn oedd yn ofynnol. Dylai ambell un gofio mai ateb byr sydd ei angen – roedd rhai'n ysgrifennu tudalen wrth ymateb i gwestiwn 3 marc.

##### Cwestiwn 3

Llinyn Trôns – marwolaeth Gags heb os oedd y digwyddiad y cyfeiriodd y mwyafrif ato wrth ymateb i ddigwyddiad trist. Cyfeiriodd rhai at farwolaeth Cwmwl y ceffyl. Prin iawn oedd y rhai na chafodd farciau ar y cwestiwn hwn a da yw gallu adrodd mai prin oedd y rhai gyfeiriodd at yr olygfa a ddyfynnwyd ar y papur arholiad. Llwyddodd nifer i ateb y cwestiwn hwn yn fanwl a chyrraedd y band marciau uchaf.

Bachgen yn y Môr – cafwyd mwy o amrywiaeth o ran digwyddiadau wrth ystyried y nofel hon. Roedd hanes Bibi a'r bêl droed ar ddechrau'r nofel yn dipyn o ffefryn, y fordaith a hanes y tŷ'n ffrwydro ond roedd mwy yma wedi cyfeirio at y digwyddiad yn y stadiwm a ddyfynnwyd ar y papur arholiad ac felly'n colli marciau.

Diffodd y Sêr – hanes marwolaeth Ellis oedd y prif ddigwyddiad y cyfeiriwyd ato gan ymgeiswyr y nofel hon. Gwelwyd rhai yn methu trafod un digwyddiad yn unig ond cyfres o ddigwyddiadau ac felly'n colli'r manylder oedd ei angen.

Ac Yna Clywodd Sŵn Y Môr – hanes Meredydd yn adrodd marwolaeth ei rieni wrth Einir yn y gwely oedd yr olygfa a ddewiswyd gan y mwyafrif. Roedd ambell un wedi dewis marwolaeth Dwalad wrth i Richard Jones ddianc ar ddiwedd y nofel. Cafwyd ymateb da gan ymgeiswyr y nofel hon.

I Ble'r Aeth Haul y Bore? – heb os yr olygfa ar ddechrau'r nofel lle lladdwyd Chiquito a threiswyd Haul y Bore gan Dicks oedd bron pob un ateb a farciwyd. Roedd ambell un wedi dewis yr olygfa olaf pan oedd Haul y Bore'n marw.

Dim – gwelwyd mwy o amrywiaeth o ran dewis golygfeydd yma. Dewisodd rhai yr olygfa sy'n sôn am ladd y dyn anghywir yng Ngogledd Iwerddon, ymosodiad y Falklands, angladd Richard Lloyd. Roedd mwy o duedd gan ymgeiswyr y nofel hon i gyfuno digwyddiadau yn hytrach na chanolbwyntio ar un digwyddiad yn unig.

#### Cwestiwn 4

Mae'r arfer o baratoi ymgeiswyr ar gyfer ymateb i gwestiwn portread wedi gwella ar hyd y blynyddoedd. Cafwyd ymatebion da iawn i bob cymeriad a nodwyd ym mhob nofel. Roedd yr mwyafrif yn llwyddo i restru 4/5 nodwedd cymeriad ac yn cefnogi gyda thystiolaeth o'r nofel a'r goreuon hefyd yn llwyddo i ddyfynnu wrth ateb.

#### Cwestiwn 5

Dyma gwestiwn arall sydd wedi ennill ei blwyf ar draws y nofelau. Roedd ymgeiswyr a oedd yn ennill marciau da yn gallu enwi ond hefyd yn trafod effaith y nodweddion a ddyfynnwyd. Dylid efallai nawr roi sylw i drydedd rhan y cwestiwn lle mae gofyn i'r ymgeiswyr chwilio am nodwedd eu hunain gan enwi, dyfynnu a thrafod effeithiolrwydd. Rhaid nodi os nad yw'r nodwedd yn cael ei henwi'n gywir/neu heb ei henwi nid yw'r ymgeiswyr yn ennill marciau yn y drydedd rhan.

#### Cwestiwn 6

Cafwyd ymateb da iawn i'r cwestiwn hwn yn gyffredinol a'r mwyafrif yn gyfforddus yn ysgrifennu ffurf dyddiadur yn hyderus. Gwelwyd ambell bapur yn cymysgu cymeriadau ond rhaid hyfforddi ymgeiswyr i ddarllen y cwestiwn yn ofalus a nodi'n unig y digwyddiadau a'r teimladau sydd ynghlwm â'r cwestiwn.

Llinyn Trôns – dyddiadur Olwen ar ddiwedd y nofel. Roeddem felly'n disgwyl iddynt ganolbwyntio ar yr hyn ddigwyddodd yn dilyn marwolaeth Gags – y canlyniadau TGAU, yr angladd a Llion yn gafael yn ei llaw, y daith i ben Yr Wyddfa i gofio Gags, plannu'r goeden. Roedd arddull rhai ymgeiswyr yn wych wrth ymateb i'r cwestiwn hwn ond eraill yn ceisio crynhoi digwyddiadau'r tridiau yn y gwrsyll heb fanylu ar ddiwedd y nofel.

Bachgen yn y Môr – unwaith eto tuedd i ailadrodd hanes y teulu o ddechrau'r nofel yn hytrach na manylu beth ddigwyddodd ar ôl cyrraedd tir sych/Awstralia. Roedd disgwyl manylu ar Jamal yn torri'r ffenestr a'u rhyddhad o weld eu rhieni unwaith eto.

Diffodd y Sêr – tuedd i grynhoi'r nofel gyfan yn hytrach na manylu ar ddiwedd y nofel. Roedd rhan fwyaf o'r atebion yn cyfleu cariad Hywel at Lora, colled teulu'r Ysgwrn, yr anrheg priodas – penillion Ellis.

Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr – mae nifer yn camddeall y diwedd. Nid yw Einir yn cytuno i'w briodi ond mae awgrym cryf ei fod am barhau i ofyn iddi ddyweddio ag ef. Roedd y mwyafrif yn gallu cyfeirio at ei atgasedd at yr heddlu a'i fod wedi methu maddau iddynt am beidio â chwilio am gorff ei dad. Roedd cydymdeimlad at Now ar farwolaeth Dwalad yn ganolog i fwyafrif yr atebion.

I Ble'r Aeth Haul y Bore? – roedd tuedd i edrych yn ôl i ddechrau'r nofel yn hytrach na chanolbwyntio ar y daith i'r Bosque. Cyfeiriodd nifer at y ffaith iddi addo i'w thad i fod yn driw i'w phobl a chanolbwyntio ar ei gofal o'r henoed. Dylai ambell un nodi nad oes modd i berson ysgrifennu dyddiadur wedi iddi farw.

Dim – roedd rhai wedi cymysgu'r angladdau. Ni ddaeth Owain i angladd Enid ond roedd yn bresennol yn angladd Richard Lloyd. Llwyddwyd i gyfleu siom Gwyn gan y mwyafrif ei fod wedi siomi bod Owain wedi twyllo i gael mwy o wybodaeth am yr ymgrych llosgi tai haf.

### Haen Uwch

Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr

1. Y ddwy olygfa fwyaf poblogaidd o ran tristwch oedd Meredydd yn adrodd hanes colli ei rieni wrth Einir a marwolaeth Dwalad ar ddiwedd y nofel. Gwelwyd amrywiaeth yn safon yr atebion ac ar y cyfan roedd yr ymgeiswyr yn arddangos gwybodaeth dda am y nofel. Roedd diffyg treiddgarwch yn achos nifer o ymgeiswyr ac felly'n atal rhai rhag dringo i'r bandiau marciau uchaf. Roedd tuedd i'r drafodaeth ar yr olygfa gyntaf i fod yn well na'r ail olygfa. Gwelwyd ambell un yn dewis yr olygfa a ddyfynnwyd ar y papur arholiad er gwaethaf y cyfarwyddyd clir yn y cwestiwn i beidio â gwneud hyn.
2. Dyma gwestiwn erbyn hyn sydd wedi ennill ei blwyf a dyrnaid yn unig o ymgeiswyr sy'n methu enwi, enghreifftio a thrafod effeithiolrwydd nodweddiol arddull.
3. Roedd y mwyafrif wedi deall cymeriad Gladys ac yn ymdrechu i efelychu iaith a chymeriad Gladys i'r dim. Gwelwyd ambell enghraifft lle'r oedd rhai yn cynnwys manylion na fyddai Gladys druan yn ymwybodol ohonynt cyn iddi farw, er enghraifft bod yr heddlu ar drywydd Richard Jones.

I Ble'r Aeth Haul y Bore?

1. Y golygfeydd mwyaf poblogaidd y cyfeiriwyd atynt oedd llofruddiaeth Chiquito a threisio Haul y Bore gyda'r mwyafrif yn eu hystyreid fel un digwyddiad ac ambell un yn eu trafod fel dwy olygfa ar wahân. Roedd yr olygfa olaf hefyd yn boblogaidd wrth ystyried marwolaeth Haul y Bore.
2. Gwelwyd ymateb da iawn i'r darn darllen a'r ymgeiswyr yn amlwg wedi eu hyfforddi'n drylwyr i drafod arddull yr awdur yn y darn.
3. Cafwyd ymateb da i ffurf y llythyr gan gyfeirio at ddigon o ddigwyddiadau perthnasol a thrafod teimladau'r prif gymeriad yn dda.

Dim

1. Y digwyddiadau ar ddechrau'r nofel yn yr ysgol oedd y dewis poblogaidd ar gyfer yr olygfa gyntaf ac roedd yr ymgeiswyr yma'n llwyddo i ddangos dealltwriaeth dda fel arfer. Roedd yr ail olygfa'n amrywio o noson angladd Richard Lloyd, i llofruddio'r dyn anghywir yng Ngogledd Iwerddon i'r ymosodiad ar yr hofrennydd yn Ynysoedd y Falklands.
2. Gwelwyd enghreifftiau lle'r oedd ymgeiswyr wedi eu hyfforddi i ateb ar arddull y darn ond roedd mwy ar y nofel hon yn dueddol o ailadrodd cynnwys y darn a dylid gofalu nad yw'r ymdriniaeth o arddull yn rhy arwynebol wrth drafod effaith.

3. Roedd tuedd i gymysgu'r angladdau gyda rhai yn cyfeirio at y twyllo wnaeth Owain noson cyn angladd Richard Lloyd ac eraill yn dueddol o feddwl nad oedd Gwyn byth eto am siarad ag Owain am iddo beidio â dychwelyd i angladd Enid.

#### Y Stafell Ddirgel

1. Roedd ymateb i'r golygfeydd trist yn gyffredinol siomedig ar y nofel hon. Roeddent yn dueddol o gyfeirio at foddï Betsan Prys a Dorcas a marwolaeth Meg a Malan. Roedd diffyg treiddgarwch yn nodweddu'r atebion ac oherwydd hyn roedd yn atebion oedd yn cyrraedd y bandiau marciau uchaf yn brin.
2. Fel gyda'r nofelau eraill mae'r ymgesiwyr wedi eu hyfforddi'n drylwyr i ateb y cwestiwn arddull ac roeddent yn gallu enwi, dyfynnu a thrafod effaith y nodweddion amlycaf yn y dyfyniad.
3. Roedd llythyr Lisa at Tomos yn eithaf siomedig. Gwelwyd tuedd i edrych yn ôl ar farwolaeth Dorcas ond prin oedd y rhai oedd yn cyfeirio at y ffaith bod Ellis Puw yn priodi Sinai. Roedd symud i Bensusylvania hefyd yn ffaith nad oedd yr ymgesiwyr yn cyfeirio ato yn eu hatebion.

#### Yn Y Gwaed

1. Cafwyd ymatebion da iawn i'r nofel hon ac roedd gan yr ymgeswyr wybodaeth fanwl am hunllefau Robin. Roedd tuedd cyfuno'r hunllefau at ei gilydd i greu un olygfa. Yr ail olygfa drist oedd marwolaeth Mared ac hunanladdiad Robin – rhai yn ei hystyried fel un olygfa ar ddiwedd y nofel ac eraill yn eu hystyried fel golygfeydd ar wahân.
2. Gwelwyd ymateb da a'r ymgeswyr yn llwyddo i drafod effaith y brawddegau byrion rhwng Robin a'i fam yn dda yn ogystal â'r berfau wrth i Fo ymosod ar Robin.
3. Dangoswyd adnabyddiaeth dda o gymeriad Mared gyda'r mwyafrif yn gallu cyfeirio at olygfeydd perthnasol a theimladau. Roedd y goreuon wedi gallu manylu ar bwysigrwydd y Garreg Wen a gorffennol llosgachol Robin a Mared.

#### O Ran

1. Roedd yr atebion gorau ar y nofel hon yn drefnus ac wedi dewis golygfeydd oedd yn berthnasol i'r cwestiwn. Roedd marwolaeth Anti June ac Ifan Gwyn yn ddewis poblogaidd yn ogystal â'r eiddo yn cael ei gario allan o gartref Ifan Gwyn. Gwelwyd ambell un yn cyfeirio at olygfa Huw Huws yn cyrraedd adref gydag Angharad a gweld ei thad yn feddw peth cyntaf yn y bore hefyd yn ddewis poblogaidd.
2. Siomedig oedd yr ymateb i'r cwestiwn yma er i eiriad y cwestiwn eu harwain at y cyferbyniadau o deimladau oedd yn y darn a ddyfynnwyd. Roedd strwythur i waith yr atebion gorau.
3. Roedd manylder yr atebion gorau – y sachell, dal dwylo ac roedd y goreuon wedi gallu cyfeirio at broblemau Ifan Gwyn a gofid Angharad wrth weld ei fyd yn dirywio o'i gwmpas. Roedd y rhai mwyaf craff wedi llwyddo i efelychu iaith Mererid Hopwood yn y nofel a'r arddull.

### **Crynodeb o brif bwyntiau**

#### **Haen Sylfaenol**

- Angen manylu ar ddigwyddiadau unigol – cwestiwn 3 a 6 ar bob nofel.
- Ymarfer dewis ac enwi nodweddion arddull o'r darn a ddyfynnwyd.
- Bod yn ofalus gyda ffurf y dyddiadur – tuedd gan rai ymgeswyr i ysgrifennu'n ymsonol.
- Rhaid canmol safon iaith yr ymgeswyr yn gyffredinol wrth ateb y cwestiynau.



## Haen Uwch

- Roedd dwy ran i gwestiwn cyntaf pob nofel sef trafod dwy olygfa ac ystyried eu pwysigrwydd yn y nofel. Fel soniwyd uchod, doedd yr ymdriniaeth o'r ail olygfa ddim cystal â'r gyntaf ond hefyd roedd nodi beth oedd effaith y digwyddiadau ar blot y nofel yn wendid. Dyma faes sydd angen i ganolfannau roi sylw iddo yn y dyfodol. Nodwyd hefyd yn glir yn y cwestiwn na ddylid cyfeirio at yr olygfa ar y papur arholiad. Yn anffodus gwelwyd dyrnaid o ymgeiswyr wedi gwneud hyn. Felly gair i gall – mae angen dweud wrth yr ymgeiswyr i ddarllen y cwestiwn yn ofalus cyn dechrau ateb.
- Gofid mawr i nifer o arholwyr eleni oedd gweld prinder dyfyniadau yn yr atebion i bob nofel ar draws yr ystod gallu. Rhoddwyd sylw i ddyfynnu mewn DPP yn ddiweddar – ac mae'r adnoddau ar gael ar wefan ddiogel CBAC. Disgwylir **dyfynnu effeithiol i bwrpas sy'n cefnogi sylwadau** gan ymgeiswyr. Mae'r un disgwyliadau wrth drafod testunau llenyddol yn Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf ac felly mae'n bwysig datblygu'r sgil hwn yn ystod CA4.

## LLENYDDIAETH GYMRAEG UNED 3

### Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2019

#### Sylwadau cyffredinol

##### Gweinyddu

Diolch i'r canolfannau am gyflwyno'r gwaith yn brydlon. Gweinyddwyd yr arholiadau yn unol â chyfarwyddiadau CBAC. Labelwyd pob cryno ddisg a chof bach yn glir gan fwyafrif yr ysgolion. Cyflwynwyd y gwaith papur yn drefnus, ond cofier bod angen nodi marciau pob aelod o'r grŵp ar y taflenni marciau, ac nid yr unigolion a ddewisir gan y cyfrifiadur ar gyfer y sampl yn unig. Gweler Llawlyfr Arholiadau Llafar TGAU Llenyddiaeth Gymraeg. Cofnodwyd y marciau'n gywir ar y cyfrifiadur. Roedd safon y recordiadau drwyddi draw yn dda a chlir. Gyda grwpiau o leisiau tebyg, roedd yn gymorth arbennig pan ofynnodd athrawon i ymgeiswyr ddweud ychydig o eiriau amdanynt eu hunain.... Doedd rhywbeth byr fel: "Bore da." ddim bob amser yn gwneud y gwaith o adnabod lleisiau yn haws.

##### Grwpio

Grwpiau o 3 sy'n ddelfrydol ar gyfer y trafodaethau. Caniateir parau pan fo raid ond nid grŵp o 4. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau grwpio ymgeiswyr sy'n cynrychioli'r un band o farciau gyda'i gilydd.

Mae angen grwpio'n ofalus – roedd ambell ganolfan wedi methu grwpio o fewn yr un band. Wrth reswm, mae hyn yn digwydd ar ddiwrnod arholiad, lle mae rhai ymgeiswyr yn perfformio'n well neu'n salach na'r disgwyl, ond gwelwyd ambell enghraifft lle roedd llawer o'r ymgeiswyr wedi cael eu rhoi mewn grwpiau lle roedd yna 2 neu 3 fand o wahaniaeth.

##### Amseru

Mae'r amseru'n parhau yn anghyson iawn mewn ambell ganolfan. Cafwyd trafodaethau eithafol o hir – 34 munud a thrafodaethau rhy fyr - 12 munud. 'Dim mwy nag 20 munud' a ddywed y canllawiau ond ceir rhai grwpiau sydd yn parhau i fynd dros hyn.

#### Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

##### Trafodaethau Haen Sylfaenol

##### Elfennau effeithiol

Roedd y cwestiwn yn sicr wedi apelio ac roedd yr ymgeiswyr yn llwyddo i drafod yn hyderus beth sy'n gwneud y cymeriadau yn hapus ac yn drist. Roedd gan rai ymgeiswyr ar y brig ddealltwriaeth fanwl o natur y cymeriadau a'r hyn oedd yn arwain at hapusrwydd neu anhapusrwydd. Gwelent nid yn unig sut roedd digwyddiadau amlwg y ffilm/rhaglen yn cael effaith ar gymeriadau ond gallent hefyd fanylu ar elfennau mwy cynnil fel y ffordd yr oedd agweddau cymdeithasol o fewn y cyflwyniadau hefyd yn arwain at ddiflastod neu hapusrwydd yn y cymeriadau.

Cafwyd trafodaethau arbennig o dda gyda'r ymgeiswyr yn cydadweithio'n effeithiol. Canmolwyd naturioldeb y trafod gan y cymedrolwyr.

Roedd rhai ymgeiswyr yn defnyddio pytau o ddyfyniadau o'r ddeialog yn y ffilm yn bwrsol dros ben, ac yn gallu dyfynnu o'r testunau printiedig. Rhaid canmol gallu ambell ymgeisydd i ddyfynnu'n bwrsol yn ogystal â dyfynnu o'r testun print. Roedd rhai yn gallu dyfynnu'n helaeth iawn.

Nodwedd gadarnhaol arall oedd ymdrech y mwyafrif i blethu AA1 ac AA2 wrth drafod. Ar y cyfan, cyflawnwyd yr amcanion asesu. Er hynny, roedd lleiafrif fel petaen nhw'n canolbwyntio ar AA1 ac yn anghofio rhannau helaeth o AA2. Gyda rhai, cafwyd ymateb da iawn i AA2 gyda'r ymgeiswyr yn gallu cyfeirio at dechnegau ffilm yn eithaf cyson ac yn gallu tynnu cymariaethau rhwng y ffilm â'r ffynhonnell brintiedig. Gwelwyd defnydd da o dermau llunyddiaeth, yn arbennig ar frig yr ystod, ond roeddent yn prinhaus wrth fynd i lawr ystod gallu, er bod y cynllun marcio yn gofyn am gyfeiriadaeth tuag atyn nhw.

### **Elfennau i'w datblygu**

- Rhaid annog yr ymgeiswyr i geisio cadw'r cwestiwn yn ganolog wrth drafod. Dylai'r ymgeiswyr gofio cadw'r cwestiwn mewn cof. Roedd y trafodaethau gorau yn defnyddio'r geiriau o'r cwestiwn yn gyson i sicrhau eu bod yn ateb y cwestiwn gyda chymaint o fanylder a phosib.
- Roedd sawl canolfan yn tueddu i fod ychydig yn hael wrth farcio AA2. Mae'n bwysig nodi bod disgwyl i ymgeiswyr ymdrin ag arddull, technegau a'r defnydd o iaith yn gyson yn ystod y trafodaethau, a bod angen ceisio eu plethu gydag AA1.
- Dylid annog mwy o ddefnydd o dermau gwerthfawrogi llunyddiaeth a llenyddiaeth. Roedd tuedd gan rai ymgeiswyr i golli cyfle i gyfeirio at dermau llunyddiaeth. Byddai ymyrraeth cynnil athro wedi cael ei groesawu mewn achosion fel hyn.
- Mae angen cofio cyfeirio at y ffynhonnell brintiedig. Os nad yw'r ymgeiswyr yn cyfeirio o gwbl at y testun printiedig, mae'n hollol dderbyniol i'r athrawon holi cwestiwn i'r perwyl hwn.

### **Trafodaethau Haen Uwch**

#### **Elfennau effeithiol**

Rhaid canmol yr ymgeiswyr am wneud defnydd priodol ac effeithiol o'r amser paratoi cyn yr arholiad. Roedd hi'n amlwg bod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi defnyddio'r amser paratoi i gynllunio'r drafodaeth yn ofalus, ac roedd hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr wrth iddynt ddadansoddi'n dreiddgar y cymeriadau oedd yn dangos cryfder meddwl yn y ffilmiau Tylluan Wen a Mynydd Grug.

Atebwyd y cwestiwn yn fanwl a chyflawn. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn llwyddo i drafod cryfder meddwl y cymeriadau amrywiol yn eu tro gan sicrhau trafodaeth dreiddgar. Roedd rhai hefyd yn llwyddo i ystyried ochr arall y geiniog a thrafod gwendid meddwl ambell gymeriad.

Gallai'r goreuon drafod gyda manylder, treiddgarwch ac aeddfedrwydd yr hyn oedd yn effeithio ar gyflwr meddwl y cymeriadau a'r hyn oedd yn esgor ar newid yn eu personoliaethau wrth i'r ffilm ddatblygu.

Roedd y grwpiau ar frig yr ystod gallu yn sicrhau bod y cwestiwn yn greiddiol i'r drafodaeth. Roedd dealltwriaeth rhai yn serennu y tu hwnt i ofynion asesu AA1 ac AA2, a chafwyd sylwadau gwirioneddol dreiddgar gan rai o'r ymgeiswyr.

Roedd mwyafrif y grwpiau yn trafod yn naturiol ac yn dangos dealltwriaeth dda iawn o'r ffilm ac yn hyderus wrth drafod golygfeydd gwahanol ac yn dyfynnu o'r ffilm. Cafwyd ymateb da iawn hefyd i AA2 gan rai gyda'r ymgeiswyr yn hyderus wrth gyfeirio at dechnegau ffilm yn gyson ac yn cymharu'r ffilm â'r ffynhonnell brintiedig.

Llwyddai mwyafrif helaeth y grwpiau i drafod yn hunangynhaliol. Roedd ymyrraeth yr athrawon yn deg a rhesymol fel arfer.

Roedd enghreifftiau o gwestiynu cynnil iawn gan yr athrawon a oedd yn sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael chwarae teg ac yn gallu symud ymlaen a datblygu'r drafodaeth, fel eu bod yn cael y cyfle i ddangos yr hyn yr oeddent yn ei wybod a'i gofio am y ffilm/ffilmiau. Roedd y mwyafrif yn gallu plethu AA2 yn naturiol i'r drafodaeth a dyma agwedd i'w ganmol.

Diolch i'r canolfannau am baratoi'r ymgeiswyr yn drylwyr, cafodd y cymedrolwyr foddhad mawr o wrando ar y trafodaethau. Longyfarchiadau i'r athrawon a'r ymgeiswyr.

### **Elfennau i'w datblygu**

- Mae angen i'r drafodaeth fod yn naturiol. Gwelwyd enghreifftiau o rai grwpiau fel petaen nhw'n glynu wrth sgrïpt a ddysgwyd, ac yn siarad fel unigolion yn hytrach na chydweithio. Mae'r goreuon yn llwyddo i wrando ac ymateb i'r hyn a ddywedwyd.
- Mae tuedd i fod yn hael wrth farcio AA2. Yn yr achosion lle gwelwyd marcio hael, diffyg cyfeiriadau at dechnegau llunyddiaeth oedd y gwendid gan amlaf a hynny felly yn golygu bod y marc AA2 fymryn yn hael.
- Rhaid rhoi lle canolog i drafod y technegau ffilm. Mae trafod addasrwydd technegau ffilm yn llinyn sy'n codi ym mhob un o'r bandiau marciau ac i sicrhau y marciau uchaf dylai fod yn ganolog yn y trafodaethau.
- Dylid gofalu bod yr ymgeiswyr yn gallu cyfeirio'n gyson ac ystyrlon at y ffynhonnell brintiedig, ond dylai hynny ddigwydd yng nghyd-destun trafod y cwestiwn ar y ffilm. Roedd rhai yn dueddol o gyfeirio'n ormodol at y testun print a hynny ar draul y cryfder meddwl a ddangoswyd gan gymeriadau yn y ffilm.
- Disgwylir i'r grwpiau geisio bod mor hunan-gynhaliol â phosibl ar yr haen hon. Gwelwyd enghreifftiau o grwpiau yn hawlio marc yn y band uchaf ond gyda'r athro/athrawes yn gorfod procio'n gyson.
- Rhaid ceisio cadw at y cwestiwn drwy'r drafodaeth i gyd. Dylid ceisio gofalu bod yr ymgeiswyr yn cymhwyso eu gwybodaeth wrth drafod. Y gwendid pennaf oedd ymgeiswyr yn ceisio arddangos eu dealltwriaeth o'r ffilmiau gan drafod golygfeydd a phwyntiau nad oedd yn berthnasol i'r cwestiwn mewn gwirionedd.
- Mae'n bwysig grwpio o ran gallu. Cafwyd enghreifftiau o rai grwpiau oedd yn cynnwys ymgeiswyr o dri band marciau gwahanol.

### **Crynodeb o brif bwyntiau ar gyfer y ddwy haen**

- Cadw'r cwestiwn yn ganolog i'r drafodaeth.
- Sicrhau bod y trafodaethau yn naturiol heb eu sgrïptio
- Rhoi lle canolog i dechnegau ffilmio a themau llunyddiaeth – tuedd i fod ychydig yn hael wrth asesu AA2
- Cofio cyfeirio at y ffynhonnell brintiedig yng nghyd-destun trafod y ffilm

## LLENYDDIAETH GYMRAEG UNED 4

### Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2019

#### Sylwadau cyffredinol

Diolch yn fawr iawn i ganolfannau am baratoi'r ymgeiswyr mor drylwyr ar gyfer yr uned hon. Roedd pob canolfan eleni wedi cyflwyno'r gwaith yn brydlon ac yn drefnus gyda'r holl daflenni marciau wedi eu cwblhau'n gywir ac wedi eu llofnodi gan athrawon ac ymgeiswyr. Nid yw pob canolfan yn argraffu'r daflen sampl gyda'r gwaith. Mae derbyn y daflen hon yn gymorth mawr i safonwyr wrth gloriannu'r gwaith. Dylai ambell ganolfan hefyd nodi os yw ymgeisydd lle mae gwaith anghyflawn wedi ei ddewis gan y cyfrifiadur. Yn aml gwelir hyn gyda'r ymgeisydd sydd ar waelod yr ystod gallu. Mae'r cyfarwyddiadau'n nodi y dylid anfon gwaith ymgeisydd (ffolio cyflawn) o'r un grŵp dysgu sydd agosaf o'r ran marc yn lle'r gwaith anghyflawn.

Roedd yn amlwg bod safoni yn digwydd ym mwyafrif y canolfannau gyda'r canolfannau gorau yn safoni'n drylwyr ac yn digwydd yn syth wedi i'r broses farcio ddigwydd yn yr ysgolion. Da o beth hefyd yw gweld sylwadau ac adborth llawn a manwl ar waith yr ymgeiswyr a bod anodi AA1 ac AA2 yn gymorth mawr i gymedrolwyr i weld sut y penderfynwyd ar y marciau ar y dasg ryddiaith.

Cyflawnwyd y gwaith gan fwyaf yn ystod hanner tymor olaf Blwyddyn 10 ac ym Mlwyddyn 11. Serch hyn, gwelwyd ambell ganolfan yn cyflawni'r gwaith yn gynnar iawn yn ystod CA4, rhai mor gynnar â mis cyntaf Blwyddyn 10. Mae'n debyg y byddai'r ymgeiswyr hyn wedi elwa ar astudio tipyn ar y nofel a cherddi cyn cyflawni'r dasg ac felly'n cyrraedd safonau uwch wrth gyflawni'r gwaith yn ddiweddarach yn ystod y cwrs dwy flynedd.

#### Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

##### Y Dasg Feirniadol ar Ryddaith

Gwelwyd y term "arddull" yn cael ei nodi yn y cwestiwn gan lawer iawn o ganolfannau sy'n arfer dda ac yn fodd i arwain yr ymgeiswyr i gofio trafod ffurf ac arddull yn rhan o'r gwaith. Arfer dda hefyd yw gweld ymdriniaeth o AA1 ac AA2 yn cael eu cydblethu yn naturiol yn eu gwaith. Mae'n amlwg hefyd fod y gwaith ar Uned 1 y farddoniaeth wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar y dasg hon gan fod cymharu effeithiol yn digwydd yn naturiol ac yn gyson yn ystod y traethodau.

Da gweld bod mwyafrif y canolfannau wedi gwahaniaethu'r testunau o ran y grwpiau dysgu ac roedd y cwestiynau hefyd wedi eu gwahaniaethu oedd yn golygu bod yr ymgeiswyr ar draws yr ystod gallu wedi elwa ar hyn.

Rhodddwyd cryn sylw yn yr hyfforddiant yn ystod y blynyddoedd diwethaf i drafod ffurf y stori fer. Yn debyg i Uned 1 pan ddisgwylir bod yr ymgeiswyr yn trafod pa mor effeithiol yw'r mesur a ddefnyddir gan y beirdd i gyflwyno'r cynnwys a'r neges, rhaid dangos sut mae'r ffurf yn cyfrannu at effeithiolrwydd cyflwyno'r cynnwys yn y straeon byrion. Gwelwyd ambell ganolfan yn rhoi sylw manwl i ffurf y stori fer draddodiadol gan ddyfynnu beirniaid llenyddol am bwrpas y ffurf. Roedd y goreuon yn llwyddo i gymhwyso'r sylwadau hyn a manylu'n dreiddgar am addasrwydd y ffurf i'r ddwy stori a astudiwyd ganddynt.

Taflenni paratoi – cyflwynwyd y mwyafrif o'r rhain gyda'r gwaith a lle nad oedd un ar gael roedd nodyn gan y ganolfan yn nodi nad oedd yr ymgeisydd/ymgeiswyr wedi dewis defnyddio un. Byddai sawl ymgeisydd wedi elwa ar ddefnyddio taflen gynllunio ac un neu ddau arall wedi elwa petai ychydig mwy o ymdrech wedi ei roi i gynllunio'n ofalus. Ar y cyfan roedd y taflenni nodiadau yn gryno ac yn ddefnyddiol i'r ymgeiswyr.

### **Drama**

Gwelwyd amrywiaeth o ddramâu a ffurfiau unwaith eto eleni. Mae'r clasuron Cymreig yn parhau'n boblogaidd iawn – dramâu Saunders Lewis, John Gwilym Jones, Gwenlyn Parry, Meic Povey a Dewi Wyn Williams. Gwelwyd hefyd yr hen ffefrynnau megis Shirley Valentine ac Arkies ac ambell hen ffefryn y dychwelyd megis Love Hearts i Bosnia.

Roedd mwy o ganolfannau eleni wedi troi at ffilmiau ar gyfer y dasg hon. Gwelwyd ymatebion da iawn i Y Gwyll, Patagonia, Hedd Wyn a'r Streic a Fi.

Yr ymgeisiwyr oedd yn ymateb orau oedd y rhai oedd yn ymateb trwy lygaid gwahanol gymeriadau ar wahanol gyfnodau yn ystod y ddrama/ffilm. Roedd y canolfannau gorau hefyd wedi gwahaniaethu rhwng y dramâu a ddewiswyd ar sail gallu a diddordeb yr ymgeiswyr.

### **Crynodeb o brif bwyntiau**

- Annog ymgeiswyr i ddefnyddio taflenni paratoi ar gyfer y dasg dan amodau uchel
- Ystyried ffurf y straeon byrion a thrafod effeithiolrwydd y dewis o ffurf
- Gwahaniaethu testunau a chwestiynau
- Ystyried pryd i gyflawni'r tasgau yn ystod CA4
- Rhoi cyfle i ymgeiswyr ymateb i wahanol gymeriadau yn y dasg ddrama



CBAC  
245 Rhodfa'r Gorllewin  
Caerdydd CF5 2YX  
Ffôn: 029 2026 5000  
Ffacs: 029 2057 5994  
E-bost: [arholiadau@cbac.co.uk](mailto:arholiadau@cbac.co.uk)  
gwefan: [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)